




TAKING OVER MUSEUMS 2013 REPORT WALES  
ADRODDIAD MEDDIANNU AMGUEDDFEYDD CYMRU 2013



Introduction	Cyflwyniad	2
Participation	Cyfranogaeth	3-5
<b>Benefits &amp; Outcomes</b>	<b>Manteision a Chanlyniadau</b>	
For museums	I amgueddfeydd	6-7
For participants	I gyfranogwyr	8
For visitors	I'r ymwelwyr	9
Support & Resources	Cefnogaeth ac Adnoddau	10-11
Summary & Recommendations	Crynodeb ac Argymhellion	12

# TAKING OVER MUSEUMS DAY

---

## INTRODUCTION

Taking Over Museums is a day on which young people are offered a unique experience of being in charge in a museum, gallery or historic home, working alongside staff and being given meaningful roles for the day. Children participate fully in the work of the museum, making decisions and providing valuable contributions.

Following the success of the pilot project, the second Taking Over Museums event was held on 14th November 2013 and was organised by Kids in Museums, an independent charity dedicated to making museums open and welcoming to all families, children and young people, in particular those who haven't visited before. With a dedicated Board of Trustees and an exciting range of events, partnerships and initiatives, Kids in Museums gives families, young people and children visiting museums and galleries across Britain a dynamic and powerful voice.

The project was funded by CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales and supported by the Office of the Children's Commissioner for Wales.

# DIWRNOD MEDDIANNU AMGUEDDFEYDD

---

## CYFLWYNIAD

Mae'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yn ddiwrnod pan fydd pobl ifanc yn cael y cyfle i fwynhau'r profiad unigryw o reoli mewn amgueddfa, oriel neu gartref hanesyddol, gan weithio ochr yn ochr â staff a chael rolau pwysig am y diwrnod. Mae'r plant yn cyfranogi'n llawn yng ngwaith yr amgueddfa, gan wneud penderfyniadau a chyfraniadau gwerthfawr.

Yn dilyn llwyddiant y prosiect peilot, cynhaliwyd ail ddigwyddiad Meddiannu Amgueddfeydd ar Dachwedd 14eg 2013 a chafodd hwn ei drefnu gan Kids in Museums, elusen annibynnol sy'n ymroddedig i sicrhau fod amgueddfeydd yn agored a chroesawgar i deuluoedd, plant a phobl ifanc, yn arbennig y rheiny sydd heb ymweld o'r blaen. Mae ganddo Fwrdd Ymddiriedolwyr pwrpasol ac amrywiaeth cyffrous o ddigwyddiadau, partneriaethau a mentrau ac mae Kids in Museums yn rhoi llais pwerus a deinamig i deuluoedd, pobl ifanc a phlant sy'n ymweld ag amgueddfeydd ac orielau ledled Prydain.

Cafodd y prosiect ei ariannu gan CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru a'i gefnogi gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

## PARTICIPATION

28 MUSEUMS

709 CHILDREN AND  
YOUNG PEOPLE

Percentage increase on the previous year of 65% in museums and 28% in participants

The average number of participants per museum was 25, similar to the previous year; however this year the most common sized group seemed to be between 10 and 20 pupils, with a few museums working with fewer than 10 pupils and a few working with a whole class or more.

- A significant change from 2012 was in the diverse ages of young people involved
- Five out of the 28 museums used taking Over Museums Day as an opportunity to work across primary and secondary age groups

In the pilot project most children were aged 7-11, with some secondary aged and older. In 2013, most participants were still under 11 (66%) however there were examples of babies and toddlers being involved. The youngest person to take over was aged just 3 weeks!

## CYFRANOGAETH

28 AMGUEDDFEYDD

709 PHOBL IFANC

Y cynnydd mewn canrannau ar y flwyddyn flaenorol oedd 65% mewn amgueddfeydd a 28% mewn cyfranogwyr

Y nifer o gyfranogwyr ar gyfartaledd i bob amgueddfa oedd 25, sy'n nifer debyg i'r flwyddyn flaenorol, ond eleni, maint mwyaf cyffredin y grwpiau yn ôl yr hyn a welwyd oedd rhwng 10 a 20 disgybl, gyda rhai amgueddfeydd yn gweithio gyda llai na 10 o ddisgyblion a rhai ohonynt yn gweithio gyda dosbarth cyfan neu fwy.

- Un newid arwyddocaol ers 2012 oedd oedrannau amrywiol y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan
- Defnyddiodd pump allan o'r 28 amgueddfa'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd fel cyfle i weithio ar draws y grwpiau oedran cynradd ac uwchradd

Yn y prosiect peilot, roedd y mwyafrif o'r plant rhwng 7 a 11 oed, gyda rhai'n oed ysgol uwchradd ac yn hŷn. Yn 2013, roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn dal i fod yn iau na 11 (66%) ond cafwyd rhai babanod a phlant bach iawn yn cymryd rhan. Dim ond tair wythnos oed oedd y cyfranogwr ieuengaf yn y meddiannu!

**100%** of 2012 museums chose to take part again this year

This fantastic sign-up rate is a good indicator of how valuable museums find the campaign. Museums took part all over Wales, in most local authority areas and including a significant number of Communities First areas. There were independent museums, local authority museums, national museums and university museums, plus archives, national trust properties, a castle and an art gallery. A Google map was added to the project webpage so that museums could see who else in their area was taking part and share ideas with them.

Most museums worked with a school as their partner for Taking Over Museums Day, although one group worked with a playgroup and another with the National Childbirth Trust. This year, however, museums seem to have been more proactive and resourceful in finding a school to approach; recruitment methods included:

- direct emails to schools
- working with Welsh Bacc teachers
- talking to a head who had consulted as part of an HLF bid
- social media
- via a work experience student and museum volunteer

**Taking Over Museums Day resulted in more than 40% of museums working with a completely new school**

**Over 90% of museums said they had planned their activity especially for the event**

**Dewisodd 100%** o amgueddfeydd 2012 gymryd rhan eto eleni

Mae'r gyfradd gofrestru ragorol yma'n arwydd da o feddwl uchel yr amgueddfeydd o'r ymgyrch yma. Bydd amgueddfeydd yn cymryd rhan drwy Gymru gyfan, y rhan fwyaf mewn ardaloedd awdurdodau lleol, ac maent yn cynnwys nifer sylweddol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Cafwyd amgueddfeydd annibynnol, amgueddfeydd awdurdod lleol, amgueddfeydd cenedlaethol ac amgueddfeydd prifysgol, ac archifau, eiddo'r ymddiriedolaeth genedlaethol, castell ac oriel gelf. Ychwanegwyd map Google i we-dudalen y prosiect fel bod amgueddfeydd yn gallu gweld pwy arall yn eu hardal oedd yn cymryd rhan ac yna rannu syniadau gyda nhw.

Bu'r mwyafrif o amgueddfeydd yn gweithio gydag ysgol fel partner ar gyfer y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd, er bod un grŵp wedi gweithio gyda chylch chwarae ac un arall gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant. Eleni, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod amgueddfeydd wedi bod yn fwy rhagweithiol ac ymarferol o ran canfod ysgol i gysylltu â hi; roedd y dulliau penodi'n cynnwys:

- negeseuon e-bost yn uniongyrchol i ysgolion
- gweithio gydag athrawon Bagloriaeth Cymru
- siarad gyda phennaeth oedd wedi ymgynghori yn rhan o fid Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- y cyfryngau cymdeithasol
- trwy wirfoddolwr yn yr amgueddfa a myfyriwr profiad gwaith

**O ganlyniad i Ddiwrnod Meddiannu Amgueddfeydd, roedd mwy na 40% o amgueddfeydd yn gweithio gydag ysgol hollol newydd.**

**Dyweddodd mwy na 90% o amgueddfeydd eu bod wedi cynllunio eu gweithgaredd yn arbennig ar gyfer y digwyddiad**

Taking Over Museums Day can be a route into working with new partners and encourages museums to try different things. One respondent found it helped start a new relationship where previous efforts had failed *'I approached the school as I had previously had little contact with the history department despite sharing a building.'* Most museums were working with completely new pupils, a small number were involving pupils who were already working with them on other projects.

In all cases more than one member of staff was involved in planning and delivering their museum's event; in at least two cases the whole team got involved.

Gall Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd fod yn llwybr i mewn i waith gyda phartneriaid newydd ac mae'n annog amgueddfeydd i roi cynnig ar bethau newydd. Roedd un ymatebwr yn dweud ei fod wedi helpu i gychwyn perthynas newydd lle'r oedd ymdrechion blaenorol wedi methu *'Cysylltais â'r ysgol am mai ychydig iawn o gysylltiad roeddwn wedi'i gael cyn hynny gyda'r adran hanes er gwaethaf y ffaith ein bod yn rhannu adeilad'*. Roedd y mwyafrif o amgueddfeydd yn gweithio gyda disgyblion hollol newydd, roedd nifer fechan yn cynnwys disgyblion oedd yn gweithio gyda nhw'n barod ar brosiectau eraill.

Ymhob achos roedd mwy nag un aelod o staff yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio a darparu digwyddiad eu hamgueddfa; mewn o leiaf dau achos, bu'r tîm cyfan yn cymryd rhan.

*'Being part of a national campaign delivered at a local level with young people who have discovered the enthusiasm and joy of sharing stories about special places has been one of the best days of my career.'*

*'(Taking Over Museums Day is a) platform for curatorial and learning staff to work together towards a collective goal.'*

**museums SAID**

*'Mae bod yn rhan o ymgyrch genedlaethol sy'n cael ei darparu ar lefel leol gyda phobl ifanc sydd wedi canfod brwdfrydedd a mwynhad rhannu straeon am fannau arbennig wedi bod yn un o ddyddiau gorau fy ngyrfa.'*

*'(Mae Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yn) llwyfan i staff dysgu a churadurol gydweithio i geisio cyrraedd targed ar y cyd.'*

**MEDDAI'R amgueddfeydd**

## BENEFITS & OUTCOMES

### FOR MUSEUMS

This was explored during the pilot project last year and museums are still identifying a diverse number of benefits to taking part, from helping to review their offer for young visitors to young people contributing to future developments at the museum. Still the biggest benefit identified by museums is gaining a better awareness of young people's needs and how they can best support them.

Please tell us about any ongoing work you are planning as a result of Taking Over Museums Day. (Please tick all that apply.)

- 36% Using new ways to communicate with and reach out to younger audiences
- 82% Future work with this group or school
- 36% Establishing an ongoing relationship with this set of young people
- 82% Using this model or event with other groups
- 73% Encouraging families / friends of your Taking Over Museums Day group to come along to your museum

*'(Taking Over Museums Day has given me) confidence to work with this age group again.'*

*'A greater insight into establishing a long term project with young people.'*

*'The experience has made us more aware of the valuable input that children offer & the benefits for both the museum & the learning experience of our young visitors.'*

**museums SAID**

## MANTEISION A CHANLYNIADAU

### I AMGUEDDFEYDD

Archwiliwyd y mater yma yn ystod y prosiect peilot y llynedd ac mae amgueddfeydd yn dal i weld amrywiol fanteision o gymryd rhan, o helpu i adolygu eu cynigion i ymwelwyr ifanc i sicrhau cyfraniad gan bobl ifanc at ddatblygiadau'r amgueddfa at y dyfodol. Y fantais fwyaf o hyd y mae amgueddfeydd yn ei nodi yw cael gwell ymwybyddiaeth o anghenion pobl ifanc a sut y gallent gefnogi'r rhain orau.

Soniwch wrthym am unrhyw waith parhaus rydych yn ei gynllunio o ganlyniad i Ddiwrnod Meddiannu Amgueddfeydd. (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

- 36% Defnyddio ffyrdd newydd o gyfathrebu gyda chynulleidfaoedd iau ac estyn allan atynt
- 82% Gweithio gyda'r grŵp neu'r ysgol yma yn y dyfodol
- 36% Sefydlu perthynas barhaus gyda'r criw yma o bobl ifanc
- 82% Defnyddio'r model neu'r digwyddiad yma gyda grwpiau eraill
- 73% Annog teuluoedd / cyfeillion eich grŵp Meddiannu Amgueddfeydd i ddod draw i'ch amgueddfa

*'(Yr hyn rydw i wedi'i gael gan y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yw) hyder i weithio gyda'r grŵp oedran yma eto.'*

*'Gwell golwg ar sefydlu prosiect tymor hir gyda phobl ifanc.'*

*'Mae'r profiad yma wedi ein gwneud ni'n fwy ymwybodol o'r cyfraniad gwerthfawr y mae plant yn ei gynnig a'r manteision i'r amgueddfa ei hun ac i brofiad dysgu ein hymwelwyr ifanc.'*

**MEDDAI'R amgueddfeydd**

Museums gave examples of ongoing work with young people as a result of Taking Over Museums Day e.g. setting up a youth panel, and changes in attitude e.g. an increased willingness to run more activities for children. 20% said they were planning to establish a youth panel as a result of Taking Over Museums Day, a further 60% were considering it.

Taking Over Museums Day continues to generate a significant amount of press coverage, featuring widely across all media and with increased social media traffic. This not only raises the profile of the individual museums involved but the Kids in Museums brand on the event sends a clear message that museums are fun and welcoming places for children and young people.

**100% of museums said they will take part in next year's Taking Over Museums event so clearly their experience this year has been both positive and worthwhile.**

*'As a result of this particular activity we will be making tour guiding a key outcome for the Travel & Tourism GCSE students' course work next year with this school!'*

*'After attending the Kids in Museums conference at the National Museum, Cardiff, I was inspired by the energy and enthusiasm of the day and keen to quickly establish the roots for a project. The notion of letting young people take over the museum for the day and give them an insight into some of the work that goes on behind the scenes (which a lot of people don't get to see) is a fantastic idea. After seeing the completed exhibition, I was once again inspired by the same feeling of enthusiasm and I have now arranged for the afterschool club to continue beyond the project.'*

**museums SAID**

Rhoddodd yr amgueddfeydd esiamplau o waith sy'n parhau gyda phobl ifanc o ganlyniad i'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd e.e. sefydlu panel ieuenctid, newidiadau mewn agwedd e.e. mwy o barodrydd i redeg rhagor o weithgareddau i blant. Dywedodd 20% eu bod yn bwriadu sefydlu panel ieuenctid o ganlyniad i'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd, ac roedd 60% pellach yn ystyried gwneud hynny.

Mae'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yn parhau i dderbyn llawer o sylw yn y wasg, gan ymddangos yn eang ar draws y cyfryngau i gyd a chreu mwy o draffig yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn nid yn unig yn codi proffil yr amgueddfeydd unigol sy'n cymryd rhan ond mae hefyd yn rhoi brand Kids in Museums ar y digwyddiad gan anfon neges glir bod amgueddfeydd yn fannau llawn croeso a hwyl i blant a phobl ifanc.

**Dywedodd 100% o amgueddfeydd y byddent yn cymryd rhan yn nigwyddiad Meddiannu Amgueddfeydd y flwyddyn nesaf felly mae'n amlwg bod eu profiad eleni wedi bod yn bositif a gwerth ei gael.**

*'O ganlyniad i'r gweithgaredd arbennig yma byddwn yn gwneud tywys teithiau'n un o brif ganlyniadau'r gwaith cwrs i fyfyrwyr TGAU Teithio a Thwristiaeth y flwyddyn nesaf gyda'r ysgol hon!'*

*'Ar ôl bod i gynhadledd Kids in Museums yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd, cefais fy ysbrydoli gan frwdfrydedd ac egni'r diwrnod ac roeddwn yn awyddus i sefydlu gwreiddiau prosiect yn gyflym iawn. Roedd y syniad o adael i bobl ifanc feddiannu'r amgueddfa am y diwrnod a rhoi cipolwg iddynt ar rywfaint o'r gwaith sy'n digwydd tu ôl i'r llen (rhywbeth nad oes llawer o bobl yn cael ei weld) yn syniad gwych. Ar ôl gweld yr arddangosfa gyflawn, roeddwn unwaith eto wedi fy ysbrydoli gan yr un teimlad o frwdfrydedd ac rwyf wedi trefnu erbyn hyn i'r clwb ar ôl ysgol barhau ar ôl i'r prosiect ddod i ben.'*

**MEDDAI'R amgueddfeydd**



## BENEFITS & OUTCOMES

### FOR PARTICIPANTS

**100%** of group leaders who completed the survey said they considered the experience to be 'very valuable' and all said they would consider taking part again next year.

*'Twenty years of teaching and this has been the best day ever. Honestly.'*

*'We had a fantastic few days, these included the preparation days and the actual day. I have a class which includes pupils with specific learning needs. Everybody was involved.'*

### group leaders SAID

Comments were overwhelmingly positive from pupils also and highlighted the impact that Taking Over Museums Day has on their personal development and confidence, as well as giving them valuable work skills.

*'I didn't think I was going to do it...but I did.'*

*'Filming really interests us. We could be doing it anywhere and we'd enjoy it, but, we're happy to be able to make something for the museum that can help visitors understand an activity better.'*

### participants SAID

## MANTEISION A CHANLYNIADAU

### I GYFRANOGWYR

Dyweddodd **100%** o'r arweinwyr grwpiau a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn ystyried y prosiect yn 'hynod werthfawr' a dywedodd pob un y byddent yn ystyried cymryd rhan eto'r flwyddyn nesaf.

*'Ugain mlynedd o ddysgu a dyma fu'r diwrnod gorau gefais i erioed. Wir yr.'*

*'Cawsom ddiwrnod rhagorol, roedd hyn yn cynnwys y diwrnodau paratoi a'r diwrnod ei hun. Mae gen i ddosbarth sy'n cynnwys disgyblion gydag anghenion dysgu penodol. Cymerodd bawb ran.'*

### MEDDAI'R arweinwyr grwpiau

Roedd y sylwadau gan y disgyblion yn hynod o bositif hefyd ac yn dangos yr effaith y mae'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeudd yn ei chael ar eu datblygiad personol a'u hyder, yn ogystal â rhoi sgiliau gwaith gwerthfawr iddynt.

*'Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i'n cymryd rhan...and fe wnes.'*

*'Mae gennym ddiddordeb mawr mewn ffilmio. Gallem wneud gwaith ffilmio yn unrhyw le a byddem yn siŵr o'i fwynhau, ond rydym yn hapus i allu gwneud rhywbeth i'r amgueddfa sy'n helpu ymwelwyr i ddeall gweithgaredd yn well.'*

### MEDDAI'R cyfranogwyr

## BENEFITS & OUTCOMES

### FOR VISITORS

This year, more than **90%** of events were either all or partly public-facing.

Kids in Museums worked with Culture24 who listed all public events on their website free of charge, branding them and making them searchable.

Taking Over Museums Day changes perceptions of museums, not just in children but in older visitors too.

*'I expected to have a tour at a National Trust property, but not by children – what a lovely surprise.'*

*'My visit to Gwynedd Museum was transformed by the youngsters I found there. Their enthusiasm and sheer enjoyment of the place were very obvious, and they brought colour, laughter and liveliness to the building. More often please!'*

visitors SAID

## MANTEISION A CHANLYNIADAU

### I'R YMWELWYR

Eleni, roedd mwy na **90%** o ddigwyddiadau'n ymwneud â'r cyhoedd naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol.

Gweithiodd Kids in Museums gyda Culture24 a restrodd yr holl ddigwyddiadau cyhoeddus ar eu gwefan yn rhad ac am ddim, gan eu brandio a'i gwneud hi'n bosibl chwilio amdanynt.

Mae Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yn newid syniadau pobl am amgueddfeydd, nid y plant yn unig ond yr ymwelwyr hŷn hefyd.

*'Roeddwn i wedi disgwyl mynd am dro o amgylch eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond nid o dan arweiniad y plant – dyna syniad annisgwyl a hyfryd.'*

*'Cafodd y bobl ifanc yn Amgueddfa Gwynedd effaith wych ar fy ymweliad â'r lle. Roedd eu brwdfrydedd a'u mwynhad llwyr o'r lle'n amlwg iawn, a daethant â lliw, chwerthin a bywiogrwydd i'r adeilad. Gwnewch hyn yn fwy aml os gwelwch yn dda!'*

MEDDAI'R ymwelwyr

The most used resource was the 2012 report from England's Takeover Day, followed by the '7 reasons to take part' pdf and the press release template. The least used resources were the factsheets on where to find young people and what to do when your museum is closed, although these were still found to be useful by 42% and 50% of museums respectively.

**The most highly rated resources were the human resources**

**58% of respondents said they found attending a sharing meeting 'very useful' and 42% said they found the email and phone support 'very useful'.**

This year, two sharing meetings were held to help museums plan their Taking Over Museums events; as a result the number of museums who were able to benefit from these rose from 50% to 83%. Those who attended also rated their usefulness more highly this year.

Virtually all the printed resources in the 'We're taking over' packs were used and found to be useful by museums, the most useful being the certificates and the venue posters. The posters were also the most highly rated resource, with 75% of museums saying they were 'very useful'. In general, museums were more likely to request and use the printed materials than in the previous year, however they were less likely to say they were 'very useful', with the exception of the posters. This is not surprising as the project develops and shows that museums are placing more importance on the quality of what the children do on the day rather than what they receive.

Museums who received the blue packs (for children 0-11) were more likely to rate very highly the resources, especially the certificates and the poster – 100% said they found the poster to be 'very useful'. Museums who received the red packs (for children aged 11+) were more likely to rate the postcards highly, half thought they were 'very useful'.

Yr adnodd a ddefnyddiwyd amlaf oedd adroddiad 2012 am Ddiwrnod Meddiannu Lloegr; ac yn dilyn hynny'r ddogfen pdf '7 rheswm i gymryd rhan' a thempled y datganiad i'r wasg. Yr adnodd a ddefnyddiwyd leiaf oedd y taflenni ffeithiau ynglŷn â lle i gael hyd i bobl ifanc a beth i'w wneud pan fydd yr amgueddfa ar gau, er bod y rhain yn dal i fod yn ddefnyddiol i 42% a 50% o amgueddfeydd yn y drefn honno.

**Yr adnoddau gafodd y sgôr uchaf oedd yr adnoddau dynol**

**Dywedodd 58% o'r ymatebwyr eu bod wedi ei chael hi'n 'ddefnyddiol iawn' rhannu cyfarfod a dywedodd 42% eu bod wedi cael y gefnogaeth ar yr e-bost a'r ffôn yn 'ddefnyddiol iawn'.**

Eleni, cynhaliwyd dau gyfarfod rhannu i helpu amgueddfeydd i gynllunio eu digwyddiadau Meddiannu Amgueddfeydd; o ganlyniad, cynyddodd nifer yr amgueddfeydd oedd wedi gallu elwa o'r rhain o 50% i 83%. Roedd y rheiny a ddaeth wedi rhoi sgôr uwch i'w defnyddioldeb eleni hefyd.

Defnyddiwyd pob un bron o'r adnoddau printiedig yn y pecynnau 'Rydym wedi Pasio'r Awenau' ac roedd yr amgueddfeydd yn eu cael yn ddefnyddiol. Y mwyaf defnyddiol oedd y tystysgrifau a'r posteri ar gyfer y safleoedd. Y posteri gafodd y sgôr uchaf hefyd o ran adnoddau, gyda 75% o amgueddfeydd yn dweud eu bod yn 'ddefnyddiol iawn'. Yn gyffredinol, roedd amgueddfeydd yn fwy tebygol o ofyn am ddeunydd mewn print, ac o'u defnyddio, nag yn y flwyddyn flaenorol. Ond roeddent yn llai tebygol o ddweud eu bod yn 'ddefnyddiol iawn', ac eithrio'r posteri. Dydy hyn ddim yn syndod wrth i'r prosiect ddatblygu a dangos bod amgueddfeydd yn rhoi mwy o bwys ar safon yr hyn mae'r plant yn ei wneud ar y diwrnod yn hytrach na'r hyn y maent yn ei dderbyn.

Roedd yr amgueddfeydd a dderbyniodd y pecynnau glas (i blant 0-11 oed) yn fwy tebygol o roi gradd uchel iawn i'r adnoddau, yn enwedig y tystysgrifau a'r poster – dywedodd 100% eu bod wedi cael y poster yn 'ddefnyddiol iawn'. Roedd yr amgueddfeydd a dderbyniodd y pecynnau coch (i blant 11+ oed) yn fwy tebygol o roi sgôr uchel i'r cardiau post, ac roedd eu hanner yn ystyried y rhain yn 'ddefnyddiol iawn'.

The event was introduced to museums much earlier in the year than during the pilot project, which meant that time for planning has become much less of an issue. Neither did museums report significant difficulties in persuading other staff members to get involved this year. There were still challenges in terms of making contact with schools, finding an appropriate space, staff capacity. Staffing and finding an appropriate space or collection for the children to 'take over' were also cited by non-participating museums as reasons not to take part.

One participating museum said they found it hard to get the public to understand the significance of what the kids were doing and how much they'd appreciate their support, another said it was difficult to get the students to feel comfortable enough in the museum to start asking and answering questions and participating. When asked what Kids in Museums could do to support them in future, the museums that didn't take part asked for additional help with coming up with appropriate ideas and how to plan their event efficiently.

**100%** of museums said they would be interested in Kids in Museums providing resources to help them establish a youth panel.

Cyflwynwyd y digwyddiad i'r amgueddfeydd yn llawer cynharach yn y flwyddyn nag yn ystod y prosiect peilot, ac o'r herwydd nid oedd prinder amser cynllunio'n broblem debyg i'r hyn ydoedd y llynedd. Ni soniodd yr amgueddfeydd chwaith am anawsterau mawr gyda pherswadio aelodau eraill o staff i gyfranogi eleni. Roedd heriau'n bodoli o hyd o ran cysylltu gydag ysgolion a chanfod lle priodol a digon o staff. Nododd yr amgueddfeydd hynny na gymerodd ran mai diffyg staff a lle neu gasgliadau priodol i'r plant eu 'meddiannu' oedd rhai o'r rhesymau pam nad oeddent wedi cymryd rhan.

Dywedodd un amgueddfa a gymerodd ran ei bod yn ei chael hi'n anodd cael y cyhoedd i ddeall arwyddocâd yr hyn roedd y plant yn ei wneud a faint y byddent yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth. Dywedodd un arall ei bod hi'n anodd cael y myfyrwyr i deimlo'n ddigon cyfforddus yn yr amgueddfa i ddechrau gofyn ac ateb cwestiynau a chyfranogi. Pan ofynnwyd beth allai Kids in Museums ei wneud i'w cefnogi yn y dyfodol, gofynnodd yr amgueddfeydd oedd heb gymryd rhan am ragor o gymorth i feddwl am syniadau priodol a sut i gynllunio eu digwyddiad yn effeithiol.

Dywedodd **100%** o amgueddfeydd y byddai ganddynt ddiddordeb mewn derbyn adnoddau gan Kids in Museums i'w helpu i sefydlu panel ieuenctid.

In its second year, the Taking Over Museums campaign has grown both in size and in the quality of experience offered and it is fast becoming a valued feature on the Welsh heritage sector's calendar. Numbers of museums and children participating have increased significantly and some museums are working with new partners and audiences. There is evidence that the confidence of participating museums has grown and that they are trying new things such as working with multi-aged groups or inviting in pre-schoolers. Museums like being involved in a national campaign but with the freedom to organise events on a local level.

There is still some work to do in building museums' confidence to get involved; many of the reasons some museums didn't get involved were to do with their perception of what they would have to provide or do. Kids in Museums' role in providing individual support and sharing best practice is key in this, using a combination of appropriate information and guidance and human contact.

- Run two sharing meetings again in June / July – invite speakers to talk about their event, particularly at more unusual venues, and brainstorm sessions to find ways to overcome challenges highlighted this year
- Develop and grow the volunteer team to assist with events, promotion and project evaluation
- Encourage new museums to read the case studies to see how easy it can be, also to access the support offered by the Kids in Museums team
- Extend the Kids in Museums workshop programme into Welsh venues to help museums come up with new ways to involve and value young people
- Encourage continued participation of young people through Twitter Taking Over Day
- Consult museums and other partners to refine the downloadable and printed resources for 2014
- Create further resources for schools and education partners and put in place dedicated support to encourage them to get involved
- Publish this report as an additional resource on the website

Yn ei ail flwyddyn, mae'r ymgyrch Meddiannu Amgueddfeydd wedi tyfu o ran ei maint ac ansawdd y profiad y mae'n ei chynnig ac mae'n gyflym ddod yn nodwedd werthfawr ar galendr y sector treftadaeth Gymreig. Mae nifer yr amgueddfeydd a'r plant sy'n cymryd rhan wedi cynyddu'n sylweddol ac mae rhai amgueddfeydd yn gweithio gyda phartneriaid a chynulleidfaoedd newydd. Mae tystiolaeth i ddangos bod hyder yr amgueddfeydd sy'n cymryd rhan wedi tyfu a'u bod yn rhoi cynnig ar bethau newydd megis gweithio gyda grwpiau o oedranau amrywiol neu wahodd plant iau nag oedran ysgol i mewn. Mae amgueddfeydd yn hoffi cyfranogi mewn ymgyrch genedlaethol ond gan gadw'r rhyddid i drefnu digwyddiadau ar lefel leol.

Mae gwaith ar ôl i'w wneud o hyd o ran hybu hyder amgueddfeydd i gymryd rhan; roedd nifer o'r rhesymau a gafwyd gan rai o'r amgueddfeydd am beidio cymryd rhan yn ymwneud â'u disgwyliadau ynglŷn â'r pethau y byddai'n rhaid iddynt eu darparu neu eu gwneud. Mae rôl Kids in Museums o ran darparu cefnogaeth unigol a rhannu arferion gorau yn allweddol yn hyn, ac maent yn defnyddio cyfuniad o wybodaeth ac arweiniad priodol a chysylltiad personol rhwng pobl.

- Cynnal dau gyfarfod rhannu eto ym mis Mehefin / Gorffennaf – gwahodd siaradwyr i sgwrsio am eu digwyddiad, yn arbennig mewn safleoedd mwy anarferol, a sesiynau taflu syniadau i ganfod ffyrdd o orchfygu sialensiau a ddaeth i'r amlwg eleni
- Datblygu a thyfu'r tîm gwirfoddolwyr i helpu gyda digwyddiadau, hyrwyddo a gwerthuso'r prosiect
- Annog amgueddfeydd newydd i ddarllen yr astudiaethau achos i weld mor hawdd y gall fod, ac hefyd i gael gafael ar y gefnogaeth y mae'r tîm Kids in Museums yn ei chynnig
- Ymestyn rhaglen gweithdai Kids in Museums i safleoedd yng Nghymru i helpu amgueddfeydd i ganfod ffyrdd newydd o gynnwys a gwerthfawrogi pobl ifanc
- Annog cyfranogaeth barhaus gan bobl ifanc drwy Ddiwrnod Meddiannu Twitter
- Ymgynghori ag amgueddfeydd a phartneriaid eraill i fireinio'r adnoddau y gellir eu lawrlwytho a'r adnoddau mewn print ar gyfer 2014
- Creu mwy o adnoddau i ysgolion a phartneriaid addysgol a darparu cefnogaeth ymroddedig i'w hannog i gyfranogi
- Cyhoeddi'r adroddiad yma fel adnodd ychwanegol ar y wefan

## LIST OF MUSEUMS TAKING PART IN 2013

RHESTR O'R AMGUEDDFEYDD FU'N CYMRYD RHAN YN 2013

1940s Swansea Bay / Bae Abertawe 1940'au  
Abergavenny Museum and Castle / Amgueddfa y Fenni  
Anglesey Archives Service / Archifau Ynys Môn  
Big Pit National Coal Museum / Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru  
Bodelwyddan Castle and Park  
Ceredigion Museum / Amgueddfa Ceredigion  
Cilgerran Castle / Castell Cilgerran  
Cyfarthfa Castle Museum and Art Gallery / Amgueddfa Castell Cyfarthfa ac Oriol Gelf  
Cynon Valley Museum & Gallery / Rhondda Cynon Taff  
Dinefwr Park – National Trust / Dinefwr  
Egypt Centre, Museum of Egyptian Antiquities / Amgueddfa Hynafiaethau Yr Aifft  
Glamorgan Archives / Archifau Morgannwg  
Gwynedd Museum and Art Gallery, Bangor / Amgueddfa ac Oriol Gwynedd, Bangor  
Llandudno Museum  
Narberth Museum / Amgueddfa Arberth  
National Museum Cardiff / Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd  
National Roman Legion Museum / Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru  
National Slate Museum / Amgueddfa Lechi Cymru  
National Waterfront Museum / Amgueddfa Genedlaethol y Glannau  
National Wool Museum / Amgueddfa Wlân Cymru  
Newport Museum and Art Gallery  
Oriol Ynys Môn / Oriol Ynys Môn  
Pontypool Museum / Amgueddfa Pont-y-pŵl  
St Fagans National History Museum / Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru  
Swansea Museum / Amgueddfa Abertawe  
Tenby Museum / Amgueddfa ac Oriol Gelf Dinbych-y-Pysgod  
The Cardiff Story Museum / Amgueddfa Stori Caerdydd  
Wrexham County Borough Museum / Amgueddfa Wrecsam



[www.kidsinmuseums.org.uk](http://www.kidsinmuseums.org.uk)

Taking Over Museums / Meddiannu Amgueddfeydd

Kids in Museums 2013

REGISTERED CHARITY NUMBER 1123658